HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# E-scooter know the law

It's illegal



**OP VROOM**
It is against the law to ride an e-scooter on a public road, cycle path or pavement.

97190

Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU

Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

We understand that buying an e-scooter can be tempting, especially as you can get them from many popular retailers.

## However the current law is clear

You can buy one but you can't ride it on a UK public road, cycle path or pavement. The only place an e-scooter can be used is on private land.

## Why is this?

E-scooters are classified as Personal Light Electric Vehicles (PLEVs), so they are treated as motor vehicle and subject to the same legal requirements, such as: **MOT, Licensing, Tax and Insurance.**

## What happens if I am stopped by Police?

**Section 165A** of the Road **Traffic Act 1988**, allows the Police to seize any motor vehicle being used on a road which does not have the required documentation, which includes a driving licence for that class of vehicle. Once seized by the Police it can be disposed of in accordance with force policy. The rider of the E-Scooter will also be liable for prosecution which can result in a fine, points on a driving licence or both.

**Section 59** of the police reform act allows police to issue a warning if a vehicle is being used in a manner which may cause alarm, distress or annoyance. Being issued with this warning does not stop the e-scooter being seized.

**Police can seize any private scooter with the likelihood the e-scooter will be disposed of accordingly if they are being used on a public road or footpath and the rider may also be liable for prosecution for traffic offences.**

**Being too young to hold a driving licence is not a bar to being prosecuted.**

For more information please contact your Neighbourhood Police Team or visit:
www.northwales.police.uk/

Cymru/Wales
**CrimeStoppers.**
**0800 555 111**
100% dienw. Bob tro.
100% anonymous. Always.

**Got information about illegal e-scooter activity?**

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# E-sgwteri - Byddwch yn ymwybodol o'r gyfraith

Mae'n anghyfreithlon



**YM VROOM**
Mae'n erbyn y gyfraith gyrru e-sgwter ar ffordd gyhoeddus, lôn beics neu ar y pafin.

97190

Gall prynu e-sgwter fod yn demtasiwn, yn enwedig gan eu bod ar gael gan lawer o fân-werthwyr poblogaidd.

## Serch hynny, mae'r gyfraith yn glir.

Gallwch brynu un ond ni allwch ei yrru ar ffordd gyhoeddus, llwybr beicio neu bafin. Yr unig le y gellir defnyddio e-sgwter yw ar dir preifat.

## Pam?

Mae e-sgwteri yn cael eu categoreiddio fel Cerbydau Trydan Ysgafn Personol (PLEVs), felly maent yn cael eu trin fel cerbydau modur ac yn atebol i'r un gofynion cyfreithiol, fel: MOT, Trwyddedu, Treth ac Yswiriant.

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n cael fy stopio gan yr Heddlu?

Mae Adran 165A o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, yn caniatáu i'r Heddlu atafaelu unrhyw gerbyd modur sy'n cael ei ddefnyddio ar y ffordd heb y ddogfennaeth angenrheidiol, sy'n cynnwys trwydded yrru ar gyfer y dosbarth hwn o gerbyd. Ar ôl ei atafaelu, gall yr Heddlu gael gwared ohono yn unol â'u polisi. Gall gyrrwr yr e-sgwter gael ei erlyn a'i ddirwyo hefyd a chael pwyntiau ar ei drwydded.

Mae adran 59 o ddeddf diwygio'r heddlu yn caniatáu i'r heddlu gyhoeddi rhybudd os yw cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd a allai achosi ofn, gofid neu aflonyddwch. Nid yw cael y rhybudd hwn yn atal yr e-sgwter rhag cael ei atafaelu.

**Gall yr heddlu atafaelu unrhyw sgwter preifat gyda'r tebygolrwydd y bydd yr e-sgwter yn cael ei waredu os yw'n cael ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus neu lwybr troed a gall y gyrrwr hefyd gael ei erlyn am droseddu.**

**Nid ydy bod yn rhy ifanc i feddu trwydded yrru yn rhwystr i gael eich erlyn.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Tîm Heddlu'r Gymdogaeth neu ewch i: www.northwales.police.uk/

Cymru/Wales

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% dienw. Bob tro.
100% anonymous. Always.

**Oes gennych chi unrhyw wybodaeth am sgwteri anghyfreithlon?**